Casnewydd Catchup

Rhifyn Arbennig 8
Tymor yr Hydref 2015

Hwyl Fawr Mrs Roberts



Fel y gwyddoch, fydd Mrs Roberts yn ymddeol ar ddiwedd y Tymor, felly mae'r rhifyn yma yn edrych nôl ar ei gyrfa a'i hamser yn Ysgol Gymraeg Casnewydd. Mae yna negeseuon oddi wrth y plant, rhieni a llywodraethwyr sydd am ddymuno ymddeoliad hir a hapus iddi.

Cafodd Mrs Roberts ei magu yn Sling, Tregarth, Gogledd Cymru. Mynychodd Ysgol Bodfeurig ac wedyn Ysgol Dyffryn Ogwen. Aeth ymlaen i Goleg Normal, Bangor i hyfforddi fel athrawes. Cafodd ei swydd gyntaf yn Ysgol Nant y Coed yng Nghyffordd Llandudno.
Priododd yn 1978 a phenderfynu gadael ei gwaith i deithio gyda'i gŵr ,Keith, a oedd yn gweithio dramor. Buon nhw'n byw yn yr Almaen, Yr Iseldiroedd, Sweden

Symudon nhw nôl i fyw yn y DU lle gafodd ei ail ferch ei geni yn 1983.

Penderfynon nhw fyw yng Nghasnewydd er mwyn cael addysg Gymraeg i'r merched a symud yma yn 1987. Aeth ei merched i'r Uned Gymraeg yn High Cross a Gwenda yn eu dilyn fel athrawes gyflenwi yno. Dyma ddechrau ei chyfnod fel athrawes yng Nghasnewydd a phenderfynodd ddilyn cwrs gradd allanol BA ym Mhrifysgol Aberystwyth a theithio yno ar sawl penwythnos dros y blynyddoedd i gwblhau'r cwrs (cyn dyddiau'r Internet!)

Edrych nôl i ddechreuad Addysg Gymraeg yng Nghasnewydd
(gan Mr Ian Carter, Llywodraethwr Ysgol)

Nôl yn y ganrif ddiwethaf, oedd mi oedd e mor hir yn ôl a ni, ymunais â'r frwydr am Addysg Gymraeg yn ardal Casnewydd a oedd ar y pryd yn Sir Gwent. Aeth dau o'm mhlant i'r Uned yn High Cross a gafodd ei sefydlu ar ôl brwydr hir gan rieni nôl yn y 70au.

Ar y Staff addysgu ar y pryd oedd Mrs Gwenda Roberts a ddysgodd fy merch. Mae gen i lun dosbarth fel tystiolaeth! Roedd bywyd ysgol yn galed nôl yn yr 80au a dechrau'r 90au. Roedden ni'n bendant yn ddinasyddion eilradd ar ein pennau ein hun yn y bloc Cymraeg gyda lot fawr o ddrwg deimlad yn lleol gyda mwyafrif o'r plant yn dod i'r uned ar fysiau neu drafnidiaeth breifat. Roedd sawl digwyddiad annymunol a ddigwyddodd yn fwy aml wrth i niferoedd yr Uned gynyddu.

Roedd yr Uned wedi'i rheoli gan Gorff Llywodraethol Ysgol Mount Pleasant a Rogerstone. Roedd e'n anodd i'r Cymry gael llais, ac yn y diwedd, gadawyd un rhiant lywodraethwr sef Brian Hancock, i fod yn rhan o'r Corff Llywodraethol, ond mi oedd yn llais unig. Tu allan i'r uned wnaeth y frwydr barhau, gyda lobïo swyddogion Cyngor Gwent yn swyddogol ac yn answyddogol, mewn a thu allan o gyfarfodydd. Wnaethon ni hyd yn oed protestio yn siambr y Cyngor yn Neuadd y Sir yng Nghroesyceiliog, yn ystod cyfarfodydd y pwyllgor addysg a phwyllgor llawn. Cawsom ein taflu allan sawl gwaith.

Ar ddiwedd yr 80 au roedd niferoedd yr Uned Gymraeg yn fwy na'r ysgol cyfrwng Saesneg ac roedd rhai dosbarthiadau yn gorfod cael eu cynnal yn y prif bloc. Yna, digwyddodd rhywbeth annirnadwy ac addawyd ysgol newydd. Nid hen ysgol Fictorianaidd, ond ysgol newydd sbon. Sefydlwyd Corff llywodraethol dros dro ac ni fyddaf yn anghofio'r ias i lawr fy nghefn, pan edrychon ni o gwmpas yr adeilad newydd gyda het felen, galed ar fy mhen yn gynnar yn '93 gyda'r Pennaeth Arwyn Thomas a oedd newydd gael ei apwyntio. Dechreuodd Arwyn , a'i egni aruthrol, apwyntio staff a oedd â'r un weledigaeth i ddatblygu Addysg Gymraeg yn yr ysgol newydd. Cynyddodd nifer y disgyblion yn gyflym ynghyd ag aelodau newydd o staff gan fod uchelgais unigol yn pennu newid mewn gyrfa, ond roedd y Sylfaen wedi ei osod. Symudodd Arwyn Thomas ymlaen i nifer o swyddi ac mae nawr yn gyfarwyddwr addysg yng Ngwynedd. Mae Rhys Harris (Cyn Dirprwy), ar ôl secondiad i'r Cynulliad nawr yn brifathro Ysgol Gymraeg Treganna, sydd ar ei safle newydd ers 2013, yn dilyn ymgyrch hir gan rieni Caerdydd.

Penodwyd Gwenda Roberts yn Bennaeth Ysgol Gymraeg Casnewydd yn 1998 a pharhaodd i ddatblygu ethos a safonau'r ysgol. Cafodd yr ysgol arolwg Estyn ym Mis Mawrth 2004 a Chwefror 2010 lle cyrhaeddodd Gradd 1 ym mhob Cwestiwn Allweddol. Mae'r ysgol yn parhau i osod safonau uchel ym mhob maes ac yn aml yn cael ymweliadau gan athrawon/ymarferwyr o fyd addysg i weld ein systemau a gweithdrefnau sydd mewn lle er mwyn cynnal a gwella safonau.

Ar ran y llywodraethwyr a rhieni'r gorffennol a'r presennol, hoffwn ddiolch yn ddiffuant i Gwenda am ei harweiniad dros y 18 mlynedd ddiwethaf, ac yn dymuno'n dda iddi wrth iddi fwynhau'r haul yn Awstralia yn ystod yr ymweliadau hir ac aml y bydd hi nawr yn gallu gwneud i weld ei merched a'i wyrion. Os ydy Keith, ei gŵr ar ben ei hun ar gyfer rhai o'r ymweliadau, mi all rhoi galwad i mi. Mae gen i rif ffôn cwpwl o dêcawês!!

Ydych chi'n adnoabod unrhyw wynebau cyfarwydd yn y llun yma a gymerwyd yn 1994 yn Ysgol Gymreag Casnewydd pan oedd 'Shoulder Pads ' mewn ffasiwn? Allwch chi weld Mrs Roberts yn y rhes gefn 3ydd i fewn o'r dde?A phwy sy'n eistedd yn y rhes flaen ar y pen? Mrs Brazell wrth gwrs.

Dyddiau Uned High Cross

Uned Gymraeg High Cross
1992

Llun o'r Staff 1998

Llun o'r Staff 2001

Llun o'r Staff 2005
Llawer o wynebau
cyfarwydd yn y llun yma!

Negeseuon gan y plant a'u rhieni

Diolch am bopeth Mrs Roberts! Rydych chi wedi bod yn Brifathrawes anhygoel! Pob lwc ar gyfer y dyfodol.

Mollie a Eva Quarterly.

Mrs Roberts
Diolch am wneud bywyd ysgol ein plant mor arbennig. Gobeithio wnewch chi fwynhau pob munud o'ch ymddeoliad.
Cariad Jo, Megan, Bethan and Cerys Shergold

Diolch Mrs Roberts am Ysgol Gymraeg a ysgol caredig i ni.
Sebastian Maynard

Gan Ava Ravenhill
Dosbarth Derbyn

Gan Megan Taylor
Blwyddyn 1

Rwyt ti'n seren yr ysgol ac yn fy nghalon fi.
Hollie Johnsey

Rwyn siwr fy mod yn siarad dros bawb- yn ddisgyblion , rhieni,staff, llywodraethwyr a ffrindiau, hen a phresennol- wrth i mi ddiolch i Mrs Roberts am ei hymroddiad i'r ysgol dros y blynyddoedd ac mewn dymuno'n dda iddi yn ei hymddeoliad.

Mr John V. Williams
Cadeirydd y Corff Llywodraethol

Ar ran y GRhA, hoffwn ddweud diolch yn fawr a dymuno pob lwc i Mrs Roberts. Mae'r GRhA wedi cael cefnogaeth Mrs Roberts dros y blynyddoedd, sydd wedi gwneud y gwaith o godi symiau enfawr o arian ar gyfer ein plant yn hawdd iawn. Byddwn yn eich colli chi'n enfawr! Mwynhewch!

Mrs Rachel James
Chair PTA

Gan Megan Donovan
Dosbarth Pili Pala

Os ti yn gadael yr ysgol ni yn mynd i colli ti .
Dafydd Cheshire

Rydw i a Tomos yn eich diolch am bopeth. Pob lwc Mrs Roberts.
Elin a Tomos Davey

Ar ran fy hunan, Jordan and Kayleigh Brown, Mia and Maddox Sawyers, hoffwn ddiolch i chi a dymuno pob hwyl i chi ar gyfer y dyfodol! Diolch!

Sue Sawyers a'r teulu.

Pob lwc Mrs Roberts. Newn ni eich cofio.
Josh Harries.

Gan Charlie Beirne
Dosbarth Dwmplen
Malwoden

Mrs Roberts… beth allaf ddweud! Mi ddes i i'r ysgol yn gyntaf fel myfyriwr nerfus (ond dim tawel!). Cafodd yr ysgol hon gryn argraff arnaf o'r cychwyn cyntaf, a theimlais fy mod wedi dod o hyd i'r athrawon a'r plant gorau yn y byd! Ymgeisiais am swydd, a des yma fel athrawes newydd gymhwyso i flwyddyn 2 yn y flwyddyn 2001. Anodd yw credu mai fi fydd yn dilyn yn ôl eich traed a hoffwn ddiolch o galon i chi am weld rhywbeth ynof, ac am fy annog ar hyd y blynyddoedd i fod y gorau a allwn fod. Rwyf wedi mwynhau yn FAWR cydweithio gyda chi, ac yn meddwl amdanoch fel ffrind yn ogystal â Phennaeth. Pob dymuniad da i'r dyfodol, a chofiwch fod yna groeso i chi yma ar unrhyw adeg….yn enwedig i olchi'r llieiniau llestri!!
Ceri Parry

GanTeigan Sander
Dosbarth Pili Pala

Annwyl Mrs Roberts – diolch yn fawr am gynnig swydd i athrawes newydd ei chymhwyso nerfus iawn amser maith yn ôl. Diolch i chi a'r ysgol rydw i wedi datblygu a blodeuo. Rydw i'n gyffrous iawn i ddechrau fy Nirprwyaeth yn Ionawr, ond yn drist i ddweud ffarwel wrthoch chi. Rydw i dal i gofio fy nghyfweliad cyntaf gyda chi nôl yn Haf 2001!!!!
Rhian Evans

Diolch am dy amser, dy gariad, dy hapusrwydd ac ein taith.
Lola Harmes

Fy hoff beth am Mrs Roberts yw mae'n caredig a neis ac yn gwneud plant gwenu.
Ifan Jones

Unwaith eto, diolch yn fawr i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am drefnu'r Ffair Nadolig a'r gweithgareddau trwy gydol y tymor, yn ogystal â chyllido argraffiad y papur hwn. Os hoffai unrhyw un ddod yn aelod o'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon, mae ffurflenni cofrestru ar gael yn y swyddfa .. Cofiwch fod yr holl arian a godir yn mynd yn ôl i gefnogi eich plant a'u haddysg!